# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 6

TROSOLWG A CHRAFFU

## PENNOD 1

PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

*Penodi personau i gadeirio pwyllgorau*

### 73 Swyddi gwag achlysurol ymhlith cadeiryddion pwyllgor

(1) Mae darpariaeth benodi awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r adran hon os yw'n darparu ar gyfer yr achos a geir yn is-adran (2) drwy gyfrwng darpariaeth o'r math y cyfeirir ati yn is-adrannau (3) a (4).

(2) Yr achos hwnnw yw—

(a) pan fo'n amser i benodi rhai o gadeiryddion pwyllgor yr awdurdod, ond nid yr holl gadeiryddion, a

(b) nid yr achos a geir yn adran 72 ydyw.

(3) Rhaid i'r ddarpariaeth benodi ddarparu ar gyfer gwneud—

(a) penderfyniad adran 70 (fel pe byddai wedi dod yn amser penodi holl gadeiryddion pwyllgorau'r awdurdod lleol), a

(b) penderfyniad ynghylch a oes gwahaniaeth rhwng—

(i) nifer y cadeiryddion pwyllgor y byddai gan grŵp gwleidyddol hawl i'w penodi'n unol â phenderfyniad adran 70, a

(ii) nifer y cadeiryddion pwyllgor sy'n dal swyddi ar yr adeg honno ac a benodwyd gan y grŵp hwnnw.

(4) Rhaid i'r ddarpariaeth benodi ddarparu bod unrhyw wahaniaeth o'r math y cyfeirir ato yn is-adran (3)(b) yn cael ei ddileu, i'r graddau y mae hynny yn bosibl, gan benodiad y cadeirydd pwyllgor neu'r cadeiryddion pwyllgor.